



Gwerthusiad Doethineb Gwledig Dogfen Friffio 2: Dylanwadu ar bolisi yng Nghymru

Ionawr 2020



Mae Doethineb Gwledig yn dylanwadu ar ystod o faterion polisi i gefnogi pobl hŷn i barhau i fyw mewn cymunedau gwledig. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio sut mae hyn yn digwydd yng Nghymru.

"Polisiau yng Nghymru a'r Alban yn cefnogi pobl hŷn i barhau i fyw yn y cymunedau gwledig y maent yn eu hadnabod ac annog cyfraniad pobl hŷn i'w cymunedau".


(Canlyniad 3 Doethineb Gwledig)

Y prif gysylltiad rhwng Doethineb Gwledig a pholisi a strategaeth genedlaethol yng Nghymru yw'r fenter Cymunedau sy'n Ystyriol o Oed. Mae gwneud cymunedau yng Nghymru yn fwy ystyriol o oed a grymuso pobl hŷn i greu newid yn ddwy flaenoriaeth o dan gynllun Heneiddio'n Dda, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar gyfer 2019-2020. Mae'r rhain yn flaenoriaethau sy'n alinio'n agos â chanlyniadau Doethineb Gwledig.

Mae Volunteering Matters (y prif bartner yng Nghymru) wedi bod yn gweithio â swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i rannu beth sy'n digwydd mewn cymunedau gwledig drwy Doethineb Gwledig ([www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Impact and Reach Report 2017-18.sflb.ashx](http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Impact_and_Reach_Report_2017-18.sflb.ashx)).

Maent hefyd wedi darparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad â phobl hŷn, i siarad am sut y gallant gael llais wrth siapio polisi ac ymarfer i wella eu bywydau.

Ar hyn o bryd nid oes gan Gymru unrhyw Gymunedau sy'n Ystyriol o Oed a gydnabyddir gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), ond mae'r Rhaglen Heneiddio'n Dda yn cefnogi nifer o awdurdodau lleol i gyflawni'r statws hwn. Mae trafodaethau cynnar wedi cael eu cynnal am y posibilrwydd o Goed-llai a Phontblyddyn yn dod yn rhan o'r symudiad hwn ac mae Volunteering Matters wedi ymrwmo i helpu.



Pobl hŷn yn cyfrannu at strategaethau cenedlaethol

Yn y cyfamser, mae'r dysgu o Doethineb Gwledig yn cael ei rannu â'r Rhwydwaith Cymunedau sy'n Ystyriol o Oed a Rhwydwaith Heneiddio'n Dda Cymru, sy'n awyddus i ddeall sut mae'r prosiect yn gweithio a beth allwn ei ddysgu ganddo.

Gwahoddir Gweithwyr Datblygu o'r ddwy gymuned yn aml i siarad yn nigwyddiadau rhwydwaith Heneiddio'n Dda Cymru a sefydliadau allanol eraill e.e. Swyddfa Archwilio Cymru, am y gwaith maent yn ei wneud a sut maent yn mynd ati i'w wneud. Mae'r enghreifftiau ymarferol hyn yn helpu pobl i ddeall sut beth yw Cymunedau sy'n Ystyriol o Oed yn ymarferol.

Yn ogystal â llywio gwaith Cymunedau sy'n Ystyriol o Oed, mae Vountering Matters drwy Doethineb Gwledig, wedi annog pobl hŷn i gael llais a chyfrannu at ymgynghoriadau ar bolisiau neu strategaethau newydd a all effeithion arnynt. Enghraifft o hyn yw'r ymgynghoriad ar y strategaeth Unigrwydd ac Arwahanrwydd, 'Cysylltu Cymunedau: Mynd i'r afael ag Unigrwydd ac Arwahanrwydd Cymdeithasol', a lansiwyd ym mis Ionawr y llynedd.

Adnoddau

Gallwch ddarganfod mwy am sut mae Doethineb Gwledig yn dylanwadu ar bolisi yng Alban:
www.ndti.org.uk/news/rural-wisdom-evaluation

Mae gwefan Doethineb Gwledig yn darparu blogiau rheolaidd gan y cymunedau a chyhoeddiadau, yn cynnwys, 'Cyngor ar Gymunedau Aml-genedlaethol' a 'Cael Llais a Chael eich Clywed' sydd i ddod yn fuan.

www.ruralwisdom.org

Pwynt Cyswilt Gwerthuso

Carol Clifford
Arweinydd y Rhaglen: Heneiddio â Phobl Hŷn
E-bost: Carol.Clifford@ndti.org.uk
Ffôn: 01225 789135

Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (NDTi)
Llawr Cyntaf
30-32 Westgate Buildings Caerfaddon
BA1 1EF

www.ndti.org.uk